# Gweithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion ar gyfer cefnogi teuluoedd yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn dechrau drwy baratoi ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a gweithio mewn partneriaeth i nodi meysydd lle mae angen cymorth. Mae'r safon yn cynnwys cefnogi'r teulu i fynd i'r afael â heriau gyda'r nod o gyflawni, monitro a gwerthuso'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am deuluoedd a’r heriau maent yn eu hwynebu
2. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynllunio ar gyfer eich ymweliad cyntaf
3. cyfathrebu â theuluoedd i’w paratoi ar gyfer eich ymweliad, a chytuno ar ddyddiad ac amser ymweld â’u cartref
4. cadarnhau â’r gweithle beth yw’r trefniadau teithio ar gyfer ymweld â chartref y teulu a’r manylion cyswllt
5. ymweld â theuluoedd yn unol â’r cynlluniau y cytunwyd arnynt
6. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i fynd i’r afael â’r heriau sy’n wynebu teuluoedd
7. gweithio mewn partneriaeth ag aelodau o’r teulu i drafod yr heriau maent yn eu hwynebu a nodi eu dewisiadau a’u hanghenion
8. nodi gwahaniaethau mewn safbwyntiau ymysg aelodau o’r teulu, gan hybu parch at bawb
9. cynorthwyo aelodau o’r teulu i gael gafael ar wybodaeth am adnoddau a’r opsiynau sydd ar gael i gwrdd â’u dewisiadau a’u hanghenion
10. cefnogi teuluoedd i adolygu a nodi dewisiadau o’r opsiynau sydd ar gael
11. annog aelodau o’r teulu i nodi unrhyw bryderon o’r opsiynau a ddewiswyd a sut y bwriedir mynd i’r afael â’r rhain
12. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac eraill i gytuno ar ganlyniadau’r gwaith i fynd i’r afael â’r heriau maent yn eu hwynebu
13. grymuso aelodau o’r teulu i drafod pa gyfraniad a newidiadau y bydd angen i bob un ohonynt eu gwneud i gyflawni canlyniadau
14. cefnogi annibyniaeth aelodau o’r teulu i gymryd rhan mewn gweithgareddau i gyflawni canlyniadau
15. annog teuluoedd ac eraill i werthuso’r cynnydd tuag at ganlyniadau
16. rhoi eich adborth ynghylch y cynnydd a wnaed, a nodi a mynd i’r afael ag unrhyw newidiadau sy’n angenrheidiol
17. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i weithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain
18. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i weithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth wrth baratoi i weithio gyda theuluoedd i fynd i'r afael â heriau yn y cartref, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
2. sut mae sefydlu cynlluniau ar gyfer eich ymweliad cyntaf, a pham fod hyn yn bwysig
3. eich rolau a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu a chefnogi teuluoedd i fynd i'r afael â heriau yn y cartref
4. ffyrdd effeithiol o reoli gwrthdaro a sgyrsiau heriol
5. sut mae cydbwyso dewisiadau ac anghenion aelodau o'r teulu gan gynnal cyfrinachedd
6. ffactorau a all achosi heriau mewn teuluoedd
7. pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol mewn teuluoedd, a sut i gefnogi hyn
8. yr adnoddau a'r opsiynau gwahanol sydd ar gael i gefnogi teuluoedd i fynd i'r afael â heriau yn y cartref
9. sut mae cefnogi teuluoedd i ddatblygu sgiliau, galluoedd a gwybodaeth i amddiffyn, parchu, gofalu a bondio â'i gilydd, a pham mae hyn yn bwysig
10. y rolau a'r cyfrifoldebau gwahanol mewn teuluoedd, a pham mae angen cymorth ar rai unigolion gyda hyn
11. pwysigrwydd perthnasoedd diogel o ran llesiant aelodau unigol o'r teulu
12. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar y ffordd yr eir i'r afael â heriau
13. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi teuluoedd i fynd i'r afael â heriau yn y cartref
14. effaith tarfu, gan gynnwys parhad gweithiwr, ar deuluoedd
15. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi teuluoedd i fynd i'r afael â heriau yn y cartref
16. effaith straen a sut y gall effeithio ar ymddygiad
17. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth fynd i'r afael a heriau yn y cartref
18. sut gallai niwroamrywiaeth ac anghenion ychwanegol fod angen adnoddau ac opsiynau gwahanol i fynd i'r afael â heriau teuluol yn y cartref
19. arferion gweithio ar eich pen eich hun ar gyfer ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain
20. sut mae cynnal asesiadau risg wrth ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain
21. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi gweithio gyda

theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain
22. technegau arsylwi a phwysigrwydd arsylwi holistaidd wrth ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain
23. .pwysigrwydd casglu amrywiaeth o dystiolaeth i lywio eich ymarfer
24. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain
25. theorïau sy’n berthnasol i weithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain
26. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain
27. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth weithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain
28. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i weithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain
29. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth weithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain, a sut i fynd i'r afael â hyn
30. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Gweithio gyda theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD371 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithio gyda theuluoedd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |